Adolygiad Lleoedd Ôl-16, Un Rhyw a Dros Ben

# Adroddiad Ymgynghori

## Ysgol Lewis i Ferched ac Ysgol Lewis Pengam



Cynnig: **Mae'r cynnig yn ceisio cau Ysgol Lewis i Ferched a gwneud newid rheoledig i Ysgol Lewis Pengam i newid o un rhyw i gyd-addysg o fis Medi 2025.**

Byddai safle Ysgol Lewis i Ferched yn cael ei gadw fel darpariaeth i Ysgol Lewis Pengam i reoli'r cyfnod pontio dros nifer o flynyddoedd. (ac felly'n lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau a galluogi integreiddio staff a disgyblion dros gyfnod priodol o amser).

Y Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol: 3 Mehefin 2024 – 15 Gorffennaf 2024

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI



**Richard Edmunds**

Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol

# RHAGAIR

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi dechrau ar daith gyffrous ond heriol o welliannau a newidiadau. Mae gennym uchelgeisiau beiddgar i ddarparu'r cyfleoedd gorau mewn bywyd i bob dysgwr ac rydym yn ymrwymedig i wneud hyn drwy ddarparu addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel ar draws ein hysgolion fel rhan o'n Strategaeth Addysyg – Ceisio Rhagoriaeth Gyda'n Gilydd.

Sefydlodd Cabinet Caerffili Fwrdd yn 2019 i ddatblygu argymhellion ar gyfer newid mewn perthynas â Lleoedd Ôl-16, Un Rhyw a Lleoedd Dros Ben ar draws Caerffili.

Roedd y Bwrdd yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys Prifathrawon, Cynrychiolwyr Coleg, Aelodau Craffu, Cynrychiolwyr Llywodraethwyr, Cynrychiolwyr TU, cynrychiolwyr y GCA a Swyddogion yr Awdurdod Addysg Lleol.

Yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2024, penderfynodd y Bwrdd yn unfrydol gefnogi'r cynnig i ymgynghori â rhanddeiliaid yn ffurfiol gyda'r bwriad o:

(1) symud o ddarpariaeth Un Rhyw i gyd-addysg yng Nghwm Rhymni Uchaf

(2) lleoli disgyblion dalgylch Lewis ar safle Ysgol Lewis Pengam, wrth gadw safle Ysgol Lewis i Ferched i reoli'r cyfnod pontio dros nifer o flynyddoedd (lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau a galluogi integreiddio staff a disgyblion dros gyfnod priodol o amser).

Yna cyfarfu Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor i ystyried yr adroddiad a'r cynigion ar 20 Mawrth 2024. Nododd y Pwyllgor y gefnogaeth unfrydol gan y Bwrdd Lleoedd Ôl-16, Un Rhyw a Lleoedd Dros Ben ac yna gwnaeth sylwadau a chraffu ar gynigion cyn iddynt gael eu hystyried ymlaen yn y Cabinet.

Yna, cytunodd y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 3 Ebrill, yr argymhelliad i symud i ymgynghoriad.

Fel rhan o'r cynnig hwn, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae pob rhanddeiliad wedi cael cyfle i gyfranogi a gwneud sylwadau.

Cynhyrchwyd yr Adroddiad ar yr Ymgynghori hwn i grynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys adborth gan Estyn. Mae'n ceisio darparu dogfen gytbwys ac agored i gefnogi'r Cabinet i wneud penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau neu beidio bwrw ymlaen o gwbl.

Rwy'n gobeithio y bydd y ddogfen hon yn ddefnyddiol i chi fel adlewyrchiad o'r gweithgareddau a gynhaliwyd hyd yma ac yn rhoi syniad i chi o'n taith, siapio ein dulliau cyflenwi a sicrhau bod y ddarpariaeth dysgu yn ganolog yn ein cymunedau.

# CYNNWYS


**Cyflwyniad**

- Crynodeb Gweithredol
- Goblygiadau Statudol
- Diben yr Adroddiad ar yr Ymgynghori

**Cynnig**

- Beth ydym ni'n cynnig ei wneud?
- Beth sy'n llywio'r cynnig hwn?
- Gwerthusiad o'r Opsiynau
- Manteision ac Anfanteision

**Y Broses Ymgynghori**

- Y Broses Ymgynghori
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Gwybodaeth am yr Ymgynghori
- Dulliau Ymateb

**Ymatebion i'r Ymgynghori**

- Ymatebion i'r Ymgynghori
- Ymateb y pwyllgor craffu
- Ymateb Estyn (crynodeb)

**Llais y Dysgwr**

- Ymgysylltiad Disgyblion / Cyngor Ysgol
  - Ysgol y mae'r Cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arni
  - Ysgolion eraill y nodwyd eu bod wedi'u heffeithio

**Ystyriaethau Eraill**

- Egluro'r Ymgynghori
- Dewisiadau Amgen Rhesymol a Nodwyd Argymhelliad

**Camau Nesaf**

- Gwneud Penderfyniadau
- Adrodd, Hysbysu a Chyhoeddi Gwybodaeth

**Supporting Information**

- Atodiad 1: Dogfennau Ymgynghori Allweddol
- Atodiad 2: Ymateb Estyn (Fersiwn Llawn)


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir hefyd gofyn am y wybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, yn ogystal ag ar ffurf copi caled. Cysylltwch â ni ar 01443 864817 / Ysgolionyr21ainGanrif@caerffili.gov.uk_ i drefnu hyn.

# CYFLWYNIAD

**Crynodeb Gweithredol**

Mae angen i ysgolion yng Nghymru fod mewn cyflwr da a'u bod yn addas ar gyfer darparu addysg. Mewn rhai achosion, gellir moderneiddio ysgolion, eu hatgyweirio, adnewyddu, ehangu neu eu hail-adeiladu'n rhannol i gyflawni'r safonau sydd eu hangen ar gyfer addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r ysgolion presennol yn y sefyllfa gywir ac mewn achosion o'r fath gallwn gynnig ysgolion newydd neu newidiadau i ysgolion presennol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn anelu at barhau i godi safonau ysgolion a gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu er mwyn creu ysgolion yr 21ain ganrif sy'n addas i'r diben a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghaerffili.

Ar gyfer cynigion sy'n gysylltiedig ag ysgolion, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn darparu canllawiau statudol clir ar y prosesau y mae angen eu dilyn. Cynnal ymarfer ymgynghori yw un o'r camau cychwynnol yn natblygiad unrhyw gais ac mae'n ddarostyngedig i broses graffu gan Lywodraeth Cymru a chymeradwyaeth y Cabinet.

O'r 3 Mehefin 2024 hyd at y 15 Gorffennaf 2024, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori.

Pwrpas yr ymgynghoriad oedd casglu barn ar y cynnig yn ceisio cau Ysgol Lewis i Ferched a gwneud newid rheoledig i Ysgol Lewis Pengam i newid o un rhyw i gyd-addysg o fis Medi 2025.

Byddai safle Ysgol Lewis i Ferched yn cael ei gadw fel darpariaeth i Ysgol Lewis Pengam i reoli'r cyfnod pontio dros nifer o flynyddoedd. (ac felly'n lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau a galluogi integreiddio staff a disgyblion dros gyfnod priodol o amser).

Yr Adroddiad ar yr Ymgynghori hwn yw'r dull a ragnodwyd gan God Trefniadaeth Ysgolion 2018 er mwyn myfyrio, adolygu ac asesu er mwyn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Cabinet i lunio penderfyniad gwybodus i fwrw ymlaen â'r cynnig i'r cam nesaf, diwygio'r cynnig gan ystyried gwybodaeth bellach sydd wedi dod i law drwy'r broses ymgynghori neu gau'r cynnig hwn heb gymryd camau pellach.

Mae'r Adroddiad wedi'i rannu'n adrannau gwahanol, gyda'r nod o:

- Amlinellu'r prosesau ymgynghori a gynhaliwyd
- Darparu eglurhad mewn cysylltiad â'r wybodaeth a ddarparwyd a'r ymgysylltiad ag ymgyngoreion
- Crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion
- Cyflwyno ymateb llawn Estyn i'r ymgynghori
- Ymateb i faterion a godwyd drwy egluro, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau ategol

**Goblygiadau Statudol**

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Cyhoeddir yr adroddiad ar yr Ymgynghori ar wefan Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Caerffili ac mae copïau papur ar gael ar gais. Cyhoeddir yr holl wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg. Hefyd, cynhyrchwyd crynodeb sy'n addas i blant er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei darparu mewn fformat hygyrch i unrhyw blant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion.

**Diben yr Adroddiad ar yr Ymgynghori**

Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn cyflawni dyletswydd y Cyngor yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Roedd y cyfnod ymgynghori'n cyflwyno cyfle i bobl ddysgu am y cynnig, holi cwestiynau a rhoi sylwadau. Ni chafodd unrhyw ymatebion negyddol a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig ond fel sylwadau negyddol.

Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau i gynllun.

Mae'r Adroddiad ar yr Ymgynghori yn rhoi amlinelliad o'r prosesau a ddilynwyd, mae'n darparu eglurder ar y materion a'r sylwadau a dderbyniwyd gan yr ymgyngoreion, sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig yn cael eu mynegi ac, yn y pen draw, mae'n darparu sydd ei hangen ar y Cabinet i wneud un o'r penderfyniadau canlynol:

- Bwrw ymlaen â'r cynnig
- Gwneud newidiadau i'r cynnig
- Peidio bwrw ymlaen â'r cynnig

Mae manylion llawn y broses o wneud y penderfyniad a chamau'r cynnig, fel y'u hamlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r Ddogfen Ymgynghori gychwynnol ac mae ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor gyda chopïau papur ar gael ar gais.

## CYNNIG

**Beth rydym yn cynnig ei wneud?**

Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:

- **Mae'r cynnig yn ceisio cau Ysgol Lewis i Ferched a gwneud newid rheoledig i Ysgol Lewis Pengam i newid o un rhyw i gyd-addysg o fis Medi 2025.**

Byddai safle Ysgol Lewis i Ferched yn cael ei gadw fel darpariaeth i Ysgol Lewis Pengam i reoli'r cyfnod pontio dros nifer o flynyddoedd. (ac felly'n lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau a galluogi integreiddio staff a disgyblion dros gyfnod priodol o amser).

Bydd y cyfnod pontio disgyblion arfaethedig yn cael ei gyflwyno'n raddol fel a ganlyn:

***Ym mis Medi 2025 byddai'r disgyblion yn mynychu lleoliadau fel a ganlyn***

Blwyddyn 7 - pob disgybl (Merched a Bechgyn) ar safle Ysgol Lewis i Ferched
Blwyddyn 8 - pob disgybl (Merched a Bechgyn) ar safle Ysgol Lewis i Ferched
Blwyddyn 9 - pob disgybl (Merched a Bechgyn) ar safle Ysgol Lewis Pengam
Blwyddyn 10 - pob disgybl (Merched a Bechgyn) ar safle Ysgol Lewis Pengam
Blwyddyn 11 – cadw'n ddarpariaeth un rhyw, disgyblion i aros naill ai yn Ysgol Lewis i Ferched neu Ysgol Lewis Pengam
Blwyddyn 12 - Fel nawr, disgyblion i fynychu gwersi consortia Cwm Rhymni Uchaf lle cânt nhw eu cynnig
Blwyddyn 13 - Fel nawr, disgyblion i fynychu gwersi consortia Cwm Rhymni Uchaf lle cânt nhw eu cynnig

***Ym mis Medi 2026 byddai disgyblion yn mynychu lleoliadau fel a ganlyn***

Blwyddyn 7 - pob disgybl (Merched a Bechgyn) ar safle Ysgol Lewis i Ferched
Blwyddyn 8 - pob disgybl (Merched a Bechgyn) ar safle Ysgol Lewis i Ferched
Blwyddyn 9 - pob disgybl (Merched a Bechgyn) ar safle Ysgol Lewis Pengam
Blwyddyn 10 - pob disgybl (Merched a Bechgyn) ar safle Ysgol Lewis Pengam
Blwyddyn 11 - pob disgybl (Merched a Bechgyn) ar safle Ysgol Lewis Pengam
Blwyddyn 12 - Fel nawr, disgyblion i fynychu gwersi consortia Cwm Rhymni Uchaf lle cânt nhw eu cynnig
Blwyddyn 13 - Fel nawr, disgyblion i fynychu gwersi consortia Cwm Rhymni Uchaf lle cawn nhw eu cynnig

***Ym mis Medi 2027 byddai'r disgyblion yn mynychu lleoliadau fel a ganlyn***

Pob disgybl (Merched a Bechgyn) blwyddyn 7-13 ar safle Ysgol Lewis Pengam

Bwriad y dull graddol hwn yw lleihau aflonyddwch ac unrhyw effaith negyddol bosibl ar ddisgyblion sy’n sefyll arholiadau, wrth alluogi staff a disgyblion i fod yn barod i integreiddio dros amserlen briodol.



**Beth sy’n llywio’r cynnig hwn?**

Mae cynigion wedi cael eu blaenoriaethu ar sail nifer o ffactorau gan gynnwys cyflwr adeiladu, tafluniad disgyblion a gyrwyr lleol a chenedlaethol, fodd bynnag, mae cyflenwi'r cwricwlwm a'r agenda Addysgol yn parhau i fod yn gwbl greiddiol.

Trwy drafodaethau blaenorol yn 2021, roedd y Bwrdd Lleoedd Ôl-16, Un Rhyw a Lleoedd Dros Ben wedi dod i gonsensws anffurfiol mai cydaddysg fyddai'r ffordd ymlaen yng Nghwm Rhymni Uchaf (CRhU).

Ar ôl ennill consensws y Bwrdd bryd hynny, ymgysylltodd swyddogion yr Awdurdod Addysg Lleol (AALl) yn uniongyrchol â'r pedwar Pennaeth Uwchradd CRhU fel arbenigwyr addysgol i ystyried y safbwynt hwn ymhellach.

Cytunodd Penaethiaid CRhU ar y geiriad canlynol i adlewyrchu eu safbwynt ar ddarpariaeth Un Rhyw yn ogystal â'r budd posibl o symud tuag at gydaddysg ar draws Ysgolion Lewis:

“Rydyn ni’n archwilio ffyrdd i ddod â theuluoedd at ei gilydd a’u hailuno ac yn osgoi’r rhaniad y gall rhai yn ei brofi pan, oherwydd y trefniant presennol o ysgolion, mae plant o’r un teulu yn cael eu gwahanu yn 11 oed”.

Mae’r Bwrdd yn cydnabod mai Ysgol Lewis Pengam ac Ysgol Lewis i Ferched yw’r ysgolion addysg un rhyw a gynhelir gan awdurdodau lleol olaf yng Nghymru. Mae symud i ffwrdd o addysg un rhyw tuag at gyd-addysg wedi cael ei ystyried gan yr Awdurdod Lleol a'r Ysgolion dros nifer o flynyddoedd.

Cafodd Aelodau'r Bwrdd wybodaeth hefyd am lefelau lleoedd gwag yn Ysgolion Lewis, gyda 38% yn Ysgol Lewis i Ferched a 42% yn Ysgol Lewis Pengam ym mis Ionawr 2024. Yn ei arolygiad AALl diwethaf yn 2012 daeth Estyn i'r casgliad nad oedd yr awdurdod wedi gwneud digon o gynnydd o ran cael gwared ar gapasiti dros ben o'i ysgolion uwchradd.

**Gwerthusiad o’r Opsiynau**

Mae cynllunio a datblygu cynigion effeithiol ar gyfer trefniadaeth ysgolion yn hollbwysig i nod Llywodraeth Cymru o drawsnewid byd addysg yng Nghymru a darparu canlyniadau addysgol gwell, gydag ymrwymiad i gynyddu effeithiolrwydd ysgolion a lleihau anghydraddoldebau mewn lefelau cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig.

Mae gwerthusiad o’r opsiynau yn darparu cyfle i helpu cynghorau i wneud penderfyniad gwybodus ar sail tystiolaeth ar sut i gyflenwi gwasanaethau. Gwna hynny drwy ystyried manteision ac anfanteision cymharol nifer o fodelau cyflenwi gwahanol (gan gynnwys y ffordd bresennol o gyflenwi’r gwasanaeth).

Mae’r fethodoleg yn helpu’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau i roi ystyriaeth gymharol i’r pwyntiau canlynol:

- Buddioldeb – y graddau y mae pob opsiwn yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau strategol rhanddeiliaid
- Hyfywedd – y graddau y mae pob opsiwn yn hyfyw ac yn gynaliadwy’n ariannol
- Ymarferoldeb – y graddau y gellir gweithredu pob opsiwn.

Fel rhan o’r cyflwyniad o’r cynnig presennol, cynhaliwyd gwerthusiad o’r opsiynau.

Roedd y cam gwerthuso opsiynau yn galluogi i wahanol fodelau cyflenwi gael eu harchwilio a’u gwerthuso yn erbyn set o feini prawf penodol, a fyddai’n aros at ddewis yr opsiwn a ffafrir.

Cafodd pob opsiwn ei werthuso yn erbyn yr amcanion buddsoddi yn y Ddogfen Ymgynghori ac i ba raddau roedd yn bodloni'r Ffactorau Llwyddiant Critigol. Roedd y cam hwn yn rhan bwysig o'r broses er mwyn codi cwestiynau pwysig yn gynnar a helpu datblygu cynigion.

Arweiniodd hyn at naill ai opsiynau'n cael eu diystyru neu eu cario ymlaen i'w hystyried ymhellach ar y rhestr fer gydag opsiwn yn y pen draw wedi'i nodi fel y ffordd orau ymlaen. Mae'r ymarfer ymgynghori wedi'i seilio ar yr opsiwn sydd wedi'i nodi fel y ffordd orau ymlaen, gan fod yr holl opsiynau eraill wedi'u diystyru ar hyn o bryd.

Yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2024, penderfynodd y Bwrdd yn unfrydol gefnogi'r cynnig i ymgynghori â rhanddeiliaid yn ffurfiol gyda'r bwriad o:

(1) symud o ddarpariaeth Un Rhyw i gyd-addysg yng Nghwm Rhymni Uchaf
(2) lleoli disgyblion dalgylch Lewis ar safle Ysgol Lewis Pengam, wrth gadw safle Ysgol Lewis i Ferched i reoli'r cyfnod pontio dros nifer o flynyddoedd (lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau a galluogi integreiddio staff a disgyblion dros gyfnod priodol o amser).

Yna cyfarfu Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor i ystyried yr adroddiad a'r cynigion ar 20 Mawrth 2024. Nododd y Pwyllgor y gefnogaeth unfrydol gan y Bwrdd Lleoedd Ôl-16, Un Rhyw a Lleoedd Dros Ben ac yna gwnaeth sylwadau a chraffu ar gynigion cyn iddynt gael eu hystyried ymlaen yn y Cabinet.

Yna, cytunodd y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 3 Ebrill, yr argymhelliad i symud i ymgynghoriad.

**Manteision ac Anfanteision**

Mae rhai heriau cyffredin y mae pob Awdurdod Lleol yn eu hwynebu wrth fabwysiadu cynigion newydd. Mae'r mwyafrif helaeth o bolisïau'r Cyngor yn cael eu cyflenwi drwy brosiectau a rhaglenni amrywiol. Felly, mae'n hollbwysig bod prosiectau'n cael eu cyflenwi'n llwyddiannus er mwyn gwireddu'r manteision a fwriadwyd i ddinasyddion.

Mae tystiolaeth yn dangos mai'r ffordd orau i sicrhau proses gyflenwi lwyddiannus yw drwy sefydlu prosiectau yn gywir o'r dechrau. Achosion mwyaf cyffredin methiant yw: diffyg amcanion clir, adnoddau annigonol, costau ac amserlen gor-uchelgeisiol, ymhlith achosion eraill sydd wedi effeithio ar y lefel a'r swm o fudd y gellir ei gwireddu, ac y gellir eu hosgoi drwy fynd i'r afael â hwy yn ystod camau cynnar prosiect.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynnig, nodwyd nifer o fanteision ac anfanteision, fel y'u hamlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori. Roedd y broses ymgynghori yn gyfle i ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn deall beth oedd yn ganlyniadau cadarnhaol yn eu barn hwy a pha ganlyniadau negyddol y gellir eu creu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion ac amcanion gwahanol a byddwn ni'n gweithio'n weithredol yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hybu cysylltiadau da a pharch at ein gilydd yn ein cymunedau a rhyngddyn nhw. Cafodd Asesiad Effaith Integredig ei gynnal i gychwyn trafodaeth a gwahodd sylwadau ynghylch a yw egwyddorion y cynnig yn cael eu cefnogi.

Mae'r holl sylwadau wedi'u cofnodi a bydd aelodau'r Cabinet yn cael copïau o'r holl ymatebion sydd wedi dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, a hynny yn eu fformatau gwreiddiol.

## Y BROSES YMGYNGHORI

**Y Broses Ymgynghori**

Mae’r broses ymgynghori wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, a gyflwynir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

Drwy fodel TîmCaerffili - Yn Well gyda'n Gilydd, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i'r cymunedau yn ein bwrdeistref sirol. Wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn addas i'r dyfodol, rydym yn cydnabod bod angen defnyddio gweithgareddau ymgysylltu effeithiol sy'n rhan ganolog o'n proses benderfynu - Darllenwch fwy am ein dull o Ymgynghori ac Ymgysylltu yma

Ar gyfer y cynnig hwn, mae'n rhaid i'n proses ymgynghori ddilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Mae'r ymgyngoreion a ganlyn wedi cael gwybod am ein cynigion drwy lythyr neu e-bost:

| **Tabl 2: Rhestr o Ymgyngoreion** | |
|---|---|
| Disgyblion/Cynghorau Disgyblion * | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni, darpar rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr holl ddisgyblion* | Pob Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol* |
| Pennaeth, Staff a Chyrff Llywodraethu* | Aelodau lleol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Cyfagos | Cynghorau Cymuned a Thref lleol |
| Cymdeithasau Staff Addysgu a Staff Cymorth | Estyn |
| Y Rhwydwaith Rhieni | Y Fforwm Addysg Gymraeg |
| Cyfarwyddwyr / Byrddau Addysg Esgobaethol | Consortiwm De Ddwyrain Cymru (EAS) |
| Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru | Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA) |
| Y Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | Mudiad Meithrin, Menter Iaith a darparwyr meithrin gwirfoddol |

**ysgolion y bydd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, neu y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt, yn unig*

**Gwybodaeth am yr Ymgynghori**

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn datgan, wrth gynnal proses ymgynghori ar gynnig sy’n ymwneud ag ysgol, mae’n rhaid i’r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth er mwyn galluogi proses dryloyw, gytbwys ac agored ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae'n rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol ac mae'n rhaid caniatáu o leiaf 42 diwrnod i'r ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddyddiau ysgol fel y'u diffinnir gan Adran 579 Deddf Addysg 1996. Agorodd y cyfnod ymgynghori ddydd Llun 3 Mehefin 2024 (diwrnod ysgol) a daeth i ben am hanner nos, dydd Llun 15 Gorffennaf 2024.

Fel rhan o'r cynnig hwn, cafodd y ddogfennaeth ganlynol ei chynhyrchu:

- Llythyr Hysbysu'r Ymgynghori
- Dogfen Ymgynghori
- Crynodeb o'r Ymgynghori sy'n addas i Blant
- Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghori
- Asesiad Effaith Integredig

Cyhoeddwyd yr holl ddogfennaeth yn Gymraeg a Saesneg, gan gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais, fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath fel rhan o'r broses hon.

Cyflwynwyd copïau papur o'r ddogfennaeth i'r ysgolion a oedd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig, gan gynnwys crynodeb addas i blant i'w drafod gyda'r disgyblion.

Yn ogystal â hysbysu'r ymgyngoreion yn ysgrifenedig ynghylch y cynnig, cefnogwyd y broses o rannu gwybodaeth drwy wasanaeth negeseuon testun yr ysgol yn uniongyrchol i rieni a staff.

Cynhyrchwyd crynodeb addas o'r ymgynghori i blant er mwyn cefnogi'r broses ymgynghori gyda disgyblion yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio ac sy'n cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n berthnasol i'w dealltwriaeth debygol hwy, ac a oedd yn eu galluogi i gyfranogi yn y broses ymgynghori a ffurfio barn wybodus. Yn ogystal â'r ddogfennaeth hon, rhoddodd staff addysgu lleol gymorth i blant a phobl ifanc a oedd yn dymuno cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad yn eu dewis fformat ac iaith.

Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor hefyd.

**Dulliau Ymateb**

Fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, gallai unrhyw un a oedd yn dymuno gwneud sylwadau ar y cynnig wneud hynny'n ysgrifenedig drwy:

- o Cwblhau ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- o Cwblhau profforma ymateb a'i bostio i'r Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yng Nghaerffili
- o E-bostio sylwadau i'r Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yng Nghaerffili

Hefyd, cafodd disgyblion yr ysgolion mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw gyfle i gymryd rhan yn y broses drwy sesiynau â ffocws ar lais y disgyblion.

Cafodd y ffurflenni ymateb eu cynllunio mewn ffordd a fyddai'n casglu'r wybodaeth berthnasol a oedd ei hangen i gyflawni goblygiadau'r Cyngor yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer cynnal ymgynghori sy'n gysylltiedig ag addasiad rheoledig i ysgol arbennig.

Cynhaliwyd yr ymgynghori hwn er mwyn casglu barn yr ymgyngoreion ynghylch y cynnig i adleoli'r ysgol. Mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hymgorffori yn y ddogfen hon, a byddant yn cael eu cyhoeddi a'u hystyried gan y Cabinet wrth benderfynu i fwrw ymlaen i'r cam hysbysiad

Statudol ai peidio.

## YMATEBION I'R YMGYNGHORI

**Ymatebion i'r Ymgynghori**

Cafwyd cyfanswm o 591 o ymatebion yn ystod y broses ymgynghori.

*Sylwer:* Nid yw'r ffigur uchod na'r data yr adroddwyd arno ar gyfer Cwestiynau 1 i 7 yn cynnwys yr ymatebion a dderbyniwyd gan Estyn, y Pwyllgor Craffu nac a gasglwyd fel rhan o unrhyw sesiynau ymgysylltu â disgyblion. Amlinellir y rhain yn fanylach yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Roedd cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori fel a ganlyn:

- 576 o ymatebion trwy gyfrwng Arolwg ar Lein
- 15 o ymatebion trwy e-bost
- 0 o ymatebion trwy'r post

Derbyniwyd 0 ymateb o'r 591 (0%) yn Gymraeg.

Ni chafodd y Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy unrhyw geisiadau i'r ddogfennaeth gael ei darparu mewn unrhyw fformat nac iaith arall.

**CWESTIWN 1**

Rhoddwyd trosolwg i'r ymgynghorai o'r cynnig a gofynnwyd iddynt gadarnhau'r cynnig yr oeddent yn ymateb iddo fel rhan o'r broses.

**CWESTIWN 2**

Gofynnwyd i'r ymgyngoreion ddewis categori oedd yn eu disgrifio orau mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer yr ysgol dan sylw. Roedd y dewisiadau ar gyfer hynny wedi'u pennu i ddangos ymgysylltiad gyda'r grwpiau allweddol sydd wedi'u hamlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Roedd y rhain yn cynnwys disgybl, rhiant, aelod o staff, llywodraethwr ysgol, aelod etholedig, trigolyn lleol, grŵp ac arall.

O'r rhai a ymatebodd, cafodd y categorïau canlynol eu dewis:

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 48% (282) Disgybl | 27% (159) Rhieni | 13% (77) Aelodau Staff | 2% (11) Llywodraethwr Ysgol / Aelodau Etholedig | 5% (29) Preswylydd Lleol | 1% (6) Grŵp | 5% (27) Arall |

Os oedd pobl yn dewis 'Arall' roedd cyfle wedyn iddynt egluro ymhellach fel y dymunent.

Mae'r holl sylwadau wedi'u cofnodi a bydd aelodau'r Cabinet yn cael copïau o'r holl ymatebion sydd wedi dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, a hynny yn eu fformatau gwreiddiol.

**CWESTIYNAU 3 i 7**

Fel rhan o’r broses ymgynghori, gofynnwyd am wybodaeth gysylltu sylfaenol, yn cynnwys enw, cyfeiriad ac e-bost. Roedd y data seicograffig yma’n cael ei gasglu fel cymorth i gael darlun o’r ymgyngoreion ac i alluogi tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ddeall tueddiadau mewn data ymateb a grwpiau ymateb. Byddai hynny o gymorth i roi’r Adroddiad Ymgynghori hwn at ei gilydd.

Gan fod modd casglu gwybodaeth ar gyfer llawer o ddibenion, fe gyfeiriwyd at hysbysiad preifatrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer ymgynghori/arolygon. Mae’r hysbysiad yn rhoi amlinelliad o’r diben a’r sail gyfreithiol ar gyfer casglu’r wybodaeth, defnyddio data a’r cyfnodau amser i gadw data.

Yng nghyswllt yr Adroddiad Ymgynghori, bydd y Cabinet yn cael crynodeb ar wahân o’r sylwadau a gafwyd wrth ymgynghori. Dylid nodi bod unrhyw sylwadau y barnwyd eu bod yn dramgwyddus neu’n rhoi arwydd o enw pwy oedd yn ymateb wedi eu tynnu neu eu golygu.

**CWSTIWN 8**

Fel rhan o’n dyletswydd o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid i’r ymgyngoreion gael y dewis i ofyn i gael eu hysbysu pan fydd yr Adroddiad Ymgynghori’n cael ei gyhoeddi. Fe gasglwyd gwybodaeth ar gyfer cysylltu â hwynt i’r diben hynny, a’r dewis cyntaf ar gyfer cysylltu fydd trwy e-bost, os cafwyd cyfeiriad e-bost oddi wrth yr ymatebydd.




Mae 463 o’r 591 wnaeth ymateb wedi gofyn i gael eu hysbysu. Cafodd yr unigolion hynny eu hychwanegu at y rhestr hysbysu a byddwn yn cysylltu â hwynt ar yr un adeg â’r rhanddeiliaid pan ddaw’r ddogfen hon yn gyhoeddus trwy gyfrwng gwefan y Cyngor. Bydd copïau papur o’r dogfennau ar gael os gofynnir amdanynt.

**CWESTIWN 9**


Gall yr ymgyngoreion roi eu barn o blaid neu yn erbyn y cynigion.


Gofynnwyd i’r ymgyngoreion ddweud pa un o’r datganiadau a ganlyn sydd agosaf at eu barn nhw ar y cynnig. Fe’u hatgoffwyd i ddarllen y dogfennau ymgynghori cyn rhoi eu hymateb yn ystod yr ymgynghori, ac na fyddai sylwadau anffafriol a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori’n cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar yr adeg honno.


Dyma’r dewisiadau a roddwyd:


- Yn cefnogi’r cynnig
- Dim barn gref y naill ffordd na’r llall
- Ddim yn cefnogi’r cynnig

O’r 591 o ymatebion a ddychwelwyd, roedd 268 (45%) yn cefnogi’r cynnig, nid yw 217 (37%) yn ei gefnogi, roedd 106 (18%) naill ai ddim yn teimlo’n gryf y naill ffordd na’r llall neu wedi methu â dewis opsiwn.


Ymatebion Cyffredinol yr Ymgynghorai (%)
217 (37%)
268 (45%)
106 (18%)
Yn cefnogi'r cynnig
Dim barn gref y naill ffordd na'r llall
Ddim yn cefnogi'r cynnig


"Yn cefnogi'r cynnig"
45% (268) ymatebion cyffredinol wedi'u rhannu yn ôl categori
Preswylydd Lleol, 16 (6%)
Grwp, 0 (0%)
Arall, 8 (3%)
Llywodraethwr Ysgol / Aelodau Etholedig, 8 (3%)
Disgybl, 107 (40%)
Aelodau Staff, 40 (15%)
Rhieni, 89 (33%)




Mae'n briodol tynnu sylw'r Cabinet at y posibilrwydd y gallai'r sylwebaeth a roddir fel rhan o Gwestiwn 10 i 12 gynnig golwg ddyfnach i farn yr ymgyngoreion. Hefyd ni ddylai'r ymateb a roddwyd i gwestiwn 9 gael ei ystyried ar ei ben ei hun, er enghraifft, pan fydd yn ymatebion dyblyg neu ymatebion lluosog gan un cartref.

**CWESTIYNAU 10 i 12**
Blwch testun rhydd oedd hwn a oedd yn galluogi ymgyngoreion i roi sylwadau ychwanegol ynghylch pam eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig fel mae wedi'i amlinellu yn y Ddogfen Ymgynghori, neu i awgrymu newidiadau neu opsiynau amgen sy'n gallu gwella'r cynnig.

Cafodd yr holl sylwadau eu darllen a'u dadansoddi.

Daeth rhai themâu cyffredinol yn amlwg o'r ymgynghori:

- Cydaddysg yn erbyn traddodiad un rhyw
- Cyrhaeddiad addysgol, pontio disgyblion, cydraddoldeb, amrywiaeth a lles
- Goblygiadau ac effaith ar staffio
- Yr effaith gymunedol ar dref Ystrad Mynach, traffig, teithio a chludiant
- Cyflwr/addasrwydd adeiladau, lleoedd dros ben, gwerth am arian a gwaredu
- Dull graddol ac amserlenni

Mae'r themâu hyn wedi'u hamlinellu'n fanylach yn yr adran am 'Egluro'r Ymgynghoriad'.

**CWESTIYNAU 13 i 18**
Yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r ddogfen Canllawiau Ymgynghori a Monitro 2016, fe gynhwyswyd fersiwn byrrach o'r holiadur Cydraddoldeb a Monitro fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghori. Roedd hynny i gefnogi cynllunio effeithiol ac i sicrhau sampl cynrychioliadol er mwyn canfod unrhyw drafferthion o ran cydraddoldeb.

Dyma'r canlyniadau ar gyfer y rhai wnaeth gwblhau'r adran Cydraddoldeb yn yr ymatebion:

| **Rwy'n …** | | | |
|---|---|---|---|
| Benyw | 439 | Am hunan ddisgrifio | 4 |
| Gwryw | 121 | Gwell gen i beidio â dweud | 27 |

| **Oedran** | | | |
|---|---|---|---|
| O dan 16 | 285 | 40-65 | 125 |
| 16-25 | 13 | Dros 65 | 5 |
| 26-39 | 73 | Gwell gen i beidio â dweud | 90 |

| **Anabledd** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | 33 | Nac Ydw | 501 |
| Gwell gen i beidio â dweud | 57 | | |

| **Hoff Iaith** | | | |
|---|---|---|---|
| Saesneg | 556 | Arall | 3 |
| Cymraeg | 4 | Gwell gen i beidio â dweud | 28 |

**CWESTIYNAU 19 i 20**
Rhaid i ni sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn yr un modd â'r Saesneg.

Cafodd ymatebwyr gyfle i wneud awgrymiadau am sut gallwn ni gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg. Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn gallu rhoi sylwadau am sut i newid y cynnig i gael (rhagor o) effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- Mwy o wersi Cymraeg a gweithgareddau ar ôl ysgol yn y Gymraeg
- Mwy o gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg o amgylch ysgolion
- Athrawon yn defnyddio mwy o Gymraeg
- Dechrau cyrsiau yn iau a'u gwneud yn fwy 'hwyliog'
- Dyddiau Cymreig am y Gymraeg a diwylliant
- Gwersi Cymraeg i oedolion a chyrsiau am ddim
- Ailenwi ysgolion gydag enw Cymraeg

**CWESTIWN 21**

O ran y goblygiadau cydraddoldeb y tynnodd yr ymatebwyr sylw atyn nhw, cafodd y meysydd canlynol eu cynnwys:

- Rhywedd
- Rhywioldeb
- Anabledd
- Iechyd meddwl

## Ymateb y Pwyllgor Craffu

Mae Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn ymgynghorai ar gyfer unrhyw ddatblygiadau polisi neu wasanaeth mewn perthynas ag addysg yn y Fwrdeistref Sirol.

Cafodd cyfarfod aml-leoliad ei gynnal (Tŷ Penallta ac MS Teams) Dydd Mawrth 4 Mehefin 2024 am 5.30pm.

Fel rhan o'r cyfarfod hwn, trafodwyd yr ymgynghoriad ar y cynnig fel eitem 5 ar yr agenda.

Roedd yr holl ddogfennau ymgynghori ar gael i'r aelodau fel rhan o'r pecyn adroddiadau agenda ac roedd swyddogion sy'n gysylltiedig â'r cynnig ar gael i ateb cwestiynau. Mae unrhyw ymholiadau a godwyd wedi'u cydnabod a'u cynnwys fel rhan o'r dadansoddiad themâu.

Mae recordiad o'r sesiwn ar gael i'w weld:

Cyfarfod Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Ymateb Estyn

O dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 mae angen i'r Cyngor, fel y cynigiwr, yrru hysbysiad o'r ymgynghori i Estyn.

Estyn yw arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru a'u gweledigaeth hwy yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff mae'n ofynnol iddo weithredu'n unol â'r Cod, ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ddim ond ar gryfderau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynigion. Cafodd yr ymateb llawn oddi wrth Estyn ei gynnwys fel Atodiad i'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, dyma grynodeb ohono:

***"At ei gilydd, mae'r cynigion yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Mae hyn oherwydd bod y trefniadau presennol yn aneffeithlon, gyda mwy na 900 o leoedd dros ben rhwng y ddwy ysgol, a gallai cyfuno'r ddwy ysgol alluogi'r awdurdod lleol i dargedu adnoddau'n fwy effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys digon o fanylion am nifer o agweddau pwysig ar y cynnig."***

Mae'r Cyngor yn cydnabod ymateb Estyn.

## LLAIS Y DYSGWR

Mae gan bobl ifanc yr hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt ac i'w barn gael ei glywed a chael ystyriaeth briodol yn unol â'u hoed a'u haeddfedrwydd.

**Ymgysylltiad Disgyblion / Cyngor Ysgol**

Fe wnaeth y Cyngor gydnabod bod llais pobl ifanc yn ymwneud â'u cynnwys nhw fel cyfranogwyr gweithredol wrth ddatblygu, darparu, rheoli a gwella profiad addysgol a phrofiad myfyrwyr, a bod angen iddo fod wrth wraidd gwaith cynllunio, darparu a gwerthuso.

Bydd y Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yng Nghaerffili yn sicrhau, wrth gyflwyno unrhyw gynnig, fod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion a'u cynnwys nhw drwy gydol y broses gyda chymorth y timau addysgu lleol.

Oherwydd natur y cynnig, cafodd cymysgedd o ddulliau eu defnyddio:

1) Cafodd crynodeb o'r ymgynghoriad sy'n addas i blant ei lunio i gynorthwyo'r broses ymgynghori â disgyblion
2) Cafodd sesiynau rhyngweithiol â chymorth rhwng dosbarthiadau ac athrawon eu cynnal ar lefel uwchradd a chynradd i gyflwyno gwybodaeth mewn modd sy'n berthnasol i'w dealltwriaeth debygol, gan ganiatáu iddyn nhw gymryd rhan yn y broses ymgynghori a ffurfio barn wybodus
3) Cafodd sesiynau Cyngor Ysgol arbennig eu cynnal gydag Ysgol Lewis i Ferched ac Ysgol Lewis Pengam, ac fe gafodd ymatebion ffurfiol eu cyflwyno
4) Cafodd disgyblion eu hannog i ymateb yn unigol, fel sy'n cael ei ddangos gan y categori disgyblion, sy'n cyfrif am 48% (282 o ymatebion) o'r ymatebion cyffredinol a ddaeth i law drwy lwybr y ffurflen ar-lein, e-bost neu lythyr.

➢ **Ysgol y mae'r Cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arni**

Mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ddisgyblion Ysgol Lewis I Ferched ac Ysgol Lewis Pengam. Cafodd y Cynghorau Ysgol, y Cynghorau Eco a charfannau disgyblion ehangach eu hannog i gymryd rhan yn y broses ymgynghori drwy gyfres o sesiynau rhyngweithiol â chymorth.

Cwestiynau a gafodd eu gofyn i'r disgyblion oedd:

- A ydych chi'n cytuno â'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud?
- Oes gennych chi unrhyw syniadau am yr hyn yr hoffech chi ei gael mewn ysgol newydd?
- A oes gennych unrhyw syniadau am sut y gellir newid y cynnig hwn i gael (mwy o) effaith gadarnhaol ar y Gymraeg?
- Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried?

Mae eu hymatebion wedi'u crynhoi isod:

Yn y ddwy ysgol, roedd teimladau cymysg tuag at y cynnig.

Dylai gael ei nodi y bydd yr ymatebion llawn yn cael eu darparu i'r Cabinet.

Mae detholiad o'r ymatebion a ddaeth i law i'w gweld isod:

Ysgol Lewis i Ferched – Cyngor Ysgol

“Ein cred ni yw y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar les myfyrwyr y ddwy ysgol, ond yn arbennig ar ddisgyblion Ysgol Lewis i Ferched, gan y byddan nhw'n teimlo nad ydyn nhw'n perthyn i'r ysgol, yn ogystal â gorfod wynebu llawer o heriau newydd o ran bod mewn ysgol gydaddysg. O ganlyniad, bydd angen rhoi pwyslais mawr ar les, a rhoi cymorth ar waith i helpu pob un myfyriwr yn effeithiol, gan wneud yn siŵr na fydd unrhyw fyfyriwr yn teimlo na allai godi ei lais pan fydd rhywbeth o'i le, a bod pawb yn cael cymorth.”

Ysgol Lewis i Ferched – Disgybl Blwyddyn 9

“Rwy'n teimlo ei bod hi'n bryd uno, ond rwy'n teimlo'n ddrwg dros bobl y mae eu profiad ysgol wedi cael ei amharu.”

Ysgol Lewis i Ferched – Disgybl Blwyddyn 7

“Newidiadau newydd, pobl newydd, safleoedd newydd, profiadau newydd.”

Ysgol Lewis Pengam – Cyngor Ysgol

“Roedd yna farn unfrydol ei bod yn hen bryd cael trafodaeth ynghylch dyfodol yr ysgolion a'i bod yn hanfodol bwysig bod barn y disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion yn cael ei chlywed a'i chydnabod… roedd gan dri aelod o'r cyngor farn niwtral (ddim o blaid nac yn gwrthwynebu); fel disgyblion hŷn, roedden nhw'n teimlo y byddai'r cynnig yn cael effaith fach iawn arnyn nhw. Roedd yr holl ddisgyblion eraill o gynghorau grwpiau blwyddyn ysgol isaf a chanol yn unfrydol o blaid.”

Ysgol Lewis Pengam – Disgybl Blwyddyn 7

“Rwy'n iawn gyda'r syniad oherwydd bydd e fel ysgol gynradd.”

Ysgol Lewis Pengam – Disgybl Blwyddyn 7

“Oherwydd bydd hi'n hawdd i'r rhieni brynu gwisg ysgol i ddau blentyn ac yn hawdd trefnu cludiant.”

**Ysgolion eraill lle nodwyd y bydd y datblygiad yn effeithio arnynt**

Cysylltwyd â Phenaethiaid ysgolion lleol eraill yr ardal yn ystod y cyfnod ymgynghori a gwahoddwyd yr ysgolion i ddarparu eu hymatebion fel rhan o'r broses ymgynghori. Y rhain yw Ysgol Gynradd Coedybrain, Ysgol Gynradd Derwendeg, Ysgol Gynradd Glyngaer, Ysgol Gynradd Greenhill, Ysgol Gynradd Hengoed, Ysgol Iau Llancaeach, Ysgol Fabanod Llanfabon, Ysgol Gynradd Maes-y-cwmwr, Ysgol Gynradd Tir-y-berth, Ysgol Gynradd Ystrad Mynach.




Lle mae gwybodaeth wedi'i chyflwyno, caiff ymatebion eu cynnwys yn llawn fel rhan o'r atodiad ar wahân sydd ar gael i'r Cabinet.

## YSTYRIAETHAU ERAILL

**Eglurhad i'r Ymgynghori**

Wrth ddadansoddi'r holl sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad a ddaeth i law fel rhan o'r cyfnod ymgynghori, daeth nifer o themâu i'r amlwg.

Er mwyn cynorthwyo'r Cabinet gyda'r broses benderfynu, bydd yr wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu gan Swyddogion y Cyngor sy'n ymwneud â llunio'r cynnig drwy ymateb er mwyn cael eglurhad gyda rhesymau ategol.

- **Cydaddysg yn erbyn traddodiad un rhyw**

*Roedd ymateb cymysg gan ymgyngoreion ynghylch manteision cydaddysg dros y dull un rhyw traddodiadol. Er bod consensws cyffredinol ei bod hi'n hen bryd ymgynghori ynghylch cydaddysg a sut y byddai'n ein gwneud ni'n gyson â holl ysgolion eraill Cymru, roedd rhai yn teimlo bod y trefniant un rhyw presennol yn gweithio'n dda, o arwyddocâd hanesyddol, ac felly dylai barhau i gynnig elfen unigryw o ddewis i rieni a disgyblion yn y Fwrdeistref Sirol. Roedd eraill yn teimlo ei fod wedi dyddio ac angen newid am mai dyma sut rydyn ni'n byw a gweithio mewn cymdeithas, ac hefyd nad yw'n adlewyrchu'r trefniant ar lefel gynradd.*

Croesawodd y Cyngor yr amrywiaeth o ymatebion ac mae'n cydnabod yn llawn bod manteision ac anfanteision o ran cadw'r sefyllfa bresennol a symud i drefniant cydaddysgol newydd. Fodd bynnag, dylai gael ei nodi bod yr argymhelliad hwn wedi deillio o waith dadansoddi ac ystyried helaeth o ran nifer o ffactorau hollbwysig dros nifer o flynyddoedd gan y Bwrdd Ôl-16, Un Rhyw a Lleoedd Dros Ben. Fel sydd wedi'i amlinellu yn y ddogfen ymgynghori, mae'r Bwrdd yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys y rhai sy'n cymryd rhan lawn wth gyflwyno'r cwricwlwm yn uniongyrchol yn yr ysgolion.

- **Cyrhaeddiad addysgol, pontio disgyblion, cydraddoldeb, amrywiaeth a lles**

*Nododd detholiad o ymgyngoreion y canfyddiad mai merched sy'n gwneud yn arbennig o dda ac y byddai uno ag ysgol y bechgyn yn peryglu hyn. Roedd ymgyngoreion eraill yn teimlo y gallai'r cynnig hwn helpu cynyddu cyrhaeddiad yn gyffredinol a chynyddu cyfleoedd i bob disgybl, yn enwedig ar draws disgyblaethau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).*

Fel sydd wedi'i amlinellu yn y ddogfen ymgynghori, mae gan y ddwy ysgol gryfderau sy'n ategu ei gilydd, ac mae cydweithio effeithiol eisoes o ran darpariaeth ôl-16 a rhannu dysgu proffesiynol. Mae Estyn hefyd yn cefnogi'r farn bod y *“cynigion yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Mae hyn oherwydd bod y trefniadau presennol yn aneffeithlon, gyda mwy na 900 o leoedd dros ben rhwng y ddwy ysgol, a gallai cyfuno’r ddwy ysgol alluogi’r awdurdod lleol i dargedu adnoddau’n fwy effeithiol.”*

*Fe wnaeth y mater o bontio disgyblion, fel sydd wedi'i amlinellu yn y ddogfen ymgynghori, annog nifer o ymatebion. Cafodd sylwadau eu gwneud bod disgyblion wedi'u cymysgu yn y cyfnod cynradd ond bod disgwyl iddyn nhw wahanu yn y cyfnod uwchradd, sy'n hunllef logistaidd i rieni, a hefyd fod angen cymorth sylweddol gan athrawon yn y cyfnod allweddol perthnasol i baratoi'r disgyblion. Mynegodd llawer o ddisgyblion eu dymuniad i aros gyda'u brodyr a chwiorydd/cyfoedion/grwpiau cyfeillgarwch drwy gydol eu taith addysgol.*

Mae'r Cyngor yn derbyn, pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith fel sydd wedi'i amlinellu, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, byddai'n arwain at ddileu addysg un rhyw yn yr Awdurdod ac yn gwneud Caerffili yn gyson â gweddill Cymru. Byddai hefyd yn arwain at gau safle presennol Ysgol Lewis i Ferched (dros gyfnod wedi'i reoli), gyda newid a reoleiddir yn cael ei wneud i Ysgol Lewis Pengam – llwybr sydd wedi'i ystyried yn ofalus dan arweiniad Swyddogion Llywodraeth Cymru.

*Cafodd pryderon eu codi ynghylch lefel uwch o darfu ar safle a chymuned Ysgol Lewis i Ferched.*

Fel sydd wedi'i amlinellu yn y ddogfen ymgynghori a'i nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig a wnaeth ystyried yr effaith bosibl ar yr ysgolion a'r gymuned ehangach, yn amodol ar gymeradwyo, bydd hyn yn cael ei reoli'n ofalus. Mae sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu cynnal, a lles disgyblion, yn flaenoriaeth. Bydd mesurau lliniaru yn cael

eu rhoi ar waith, os bydd y cynnig yn symud ymlaen, i gynorthwyo pontio llyfn a diwallu anghenion y boblogaeth ddisgyblion gyfunol, gan roi gwybod i bawb am y broses a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg

- **Goblygiadau ac effaith ar staffio**

*Fe wnaeth detholiad o ymgyngoreion godi pryderon ynghylch y goblygiadau a'r effaith ar staff, gyda'r pryderon mwyaf yn ymwneud â sicrwydd swyddi, integreiddio timau a chadw safonau proffesiynol, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio ar safle Ysgol Lewis i Ferched ar hyn o bryd.*

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd cynnig o'r natur hwn yn naturiol yn codi nifer o gwestiynau ynghylch y strwythur staffio a rheoli swyddi gwag yn y dyfodol, ond byddai'n pwysleisio bod yr ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal i gasglu 'barn' ar hyn o bryd, a bod y cynnig yn dal i fod yn destun ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a chymeradwyaeth gan y Cabinet cyn unrhyw weithredu.

Fel sydd wedi'i amlinellu yn y ddogfen ymgynghori, yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd y strwythur staffio yn Ysgol Lewis Pengam yn newid ac mae disgwyl y bydd y staff yn Ysgol Lewis i Ferched yn cael lle yn Ysgol Lewis Pengam, lle bo'n bosibl, a byddwn ni hefyd yn cynorthwyo staff i gael eu cyflogi mewn ysgolion eraill lle mae swyddi gwag. Mae'r Cyngor yn deall yn llwyr y bydd llawer o bryder, ond hoffai roi sicrwydd y bydd y staff yn cael eu cynorthwyo drwy'r broses ac mae trafodaethau cychwynnol wedi cael eu cynnal ag undebau i egluro'r broses. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhagbenderfynu unrhyw ganlyniad mewn unrhyw ffordd.

- **Yr effaith gymunedol ar dref Ystrad Mynach, traffig, teithio a chludiant**

*Fe wnaeth nifer fach o ymgyngoreion fynegi pryderon ynghylch cymryd Ysgol Lewis i Ferched allan o ganol tref Ystrad Mynach a'r effaith bosibl ar fusnesau lleol a grwpiau cymunedol.*

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynorthwyo adfywio wrth gydbwyso gofynion addysgol fel rhan o'r cynnig hwn. Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet, unwaith y bydd y trawsnewid graddol wedi dod i ben, drwy'r llif gwaith Gwaredu Asedau, byddai'r Tîm Gwasanaethau Eiddo yn archwilio cyfleoedd eraill ar gyfer y safle, a fyddai'n cynnwys defnydd gan feysydd gwasanaeth eraill neu farchnata allanol, gyda'r bwriad o leihau unrhyw effaith ar fusnesau lleol.

Byddwn ni hefyd yn pwysleisio nad yw'r cynnig yn effeithio ar y ddarpariaeth bresennol yng Nghanolfan Hamdden Sue Noake.

Bydd defnydd cymunedol a hygyrchedd darpariaeth amgen ar gyfer grwpiau sy'n defnyddio safle presennol Ysgol Lewis i Ferched yn cael eu cynorthwyo i symud i safle Ysgol Lewis Pengam neu opsiynau addas eraill.

*Soniodd ymgyngoreion hefyd am leoliad Ysgol Lewis Pengam a sut y byddai hyn yn effeithio ar y rhai yn Ysgol Lewis i Ferched sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd, unrhyw oblygiadau cludiant o ganlyniad i hyn, a'r effaith ar lif traffig lleol.*

Y pellter rhwng y ddwy ysgol yw tua 2.8 milltir. Bwriad y Cyngor bob amser yw darparu system gludiant sy'n ceisio sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad diogel ac esmwyth at eu haddysg. Fel sydd wedi'i amlinellu yn y ddogfen ymgynghori, mae disgwyl y gall yr amseroedd teithio newid i leiafrif o ddisgyblion yn dibynnu ar eu hagosrwydd at Ysgol Lewis Pengam, ond gall hyn hefyd fod yn berthnasol i'r gwrthwyneb i'r rhai a oedd yn mynychu Ysgol Lewis i Ferched o'r blaen sy'n canfod eu hunain yn agosach. Bydd y rhai sy'n gymwys ar gyfer cludiant ysgol nad

ydyn nhw'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn cael cynnig cyfle i wneud hynny, gyda'r effaith leiaf bosibl ar lif traffig presennol yr ardal

- **Cyflwr/addasrwydd adeiladau, lleoedd dros ben, gwerth am arian a gwaredu**

*Cafodd sawl cwestiwn eu codi mewn perthynas â'r rhesymeg ynghylch pam na allai Ysgol Lewis i Ferched aros ar agor fel safle cydaddysgol ar wahân. I'r gwrthwyneb, cytunodd sawl ymgynghorai y byddai cyfuno'r disgyblion ar un safle yn datrys y materion lleoedd gwag, a bod arbedion effeithlonrwydd i'w gwneud drwy rannu adnoddau a lleihau costau cynnal a chadw.*

Fel rhan o'r gwaith o lunio eu hargymhellion i'r ddwy ysgol symud i gydaddysg, fe wnaeth aelodau'r Bwrdd Ôl-16, Un Rhyw a Lleoedd Dros Ben gael gwybodaeth ynghylch y lefelau uchel o leoedd dros ben yn ysgolion Lewis, gyda tua 38% o leoedd dros ben yn Ysgol Lewis i Ferched a tua 42% yn Ysgol Lewis Pengam, ym mis Ionawr 2024. Yn ogystal, fe wnaethon nhw ystyried cyflwr ac addasrwydd safleoedd yr ysgolion, y gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni, a nifer o ffactorau eraill a wnaeth bennu mai'r cynnig dan ymgynghoriad oedd y ffordd orau ymlaen ac sy'n parhau i fod y ffordd orau ymlaen.

*Cafodd ychydig o gwestiynau cyffredinol eu cofnodi hefyd ynghylch defnydd a phroses waredu posibl safle Ysgol Lewis i Ferched yn y dyfodol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo fel sydd wedi'i amlinellu.*

Fel sydd wedi'i amlinellu'n flaenorol, pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, unwaith i'r trawsnewid graddol ddod i ben, drwy'r llif gwaith Gwaredu Asedau, byddai'r Tîm Gwasanaethau Eiddo yn archwilio cyfleoedd eraill ar gyfer y safle, a fyddai'n cynnwys defnydd gan feysydd gwasanaeth eraill neu farchnata allanol, gyda'r bwriad o leihau unrhyw effaith ar fusnesau lleol.

- **Dull graddol ac amserlenni**

*Cafodd pryderon eu codi a'u nodi ynghylch y dull graddol sydd wedi'i amlinellu yn y ddogfen ymgynghori a'r amserlen ar gyfer trawsnewid. Daeth sylwadau i law hefyd ynghylch yr amseroldeb o ran cyflwyno'r cwricwlwm TGAU newydd ac y gallai fod yn fuddiol oedi'r cynnig tan fod hwn ar waith yn llawn yn y ddwy ysgol.*

Mae'r dull graddol sydd wedi'i amlinellu yn y ddogfen ymgynghori, a gafodd ei argymell gan Benaethiaid y ddwy ysgol, yn bwriadu lleihau tarfu ac unrhyw effaith negyddol bosibl ar ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau, gan alluogi staff a disgyblion i fod yn barod i integreiddio dros gyfnod priodol o amser. Byddai hefyd yn caniatáu amser ar gyfer unrhyw addasiadau i safle Ysgol Lewis Pengam, er enghraifft, i gydymffurfio â rheoliadau cyfleusterau ystafell ymolchi gan ystyried y trefniadau rhywedd newydd.

**Opsiynau amgen rhesymol wedi'u nodi**
Drwy'r ymatebion a ddaeth i law, cafodd yr opsiynau canlynol eu nodi:

- Cadw'r sefyllfa bresennol (dim newid i'r trefniadau presennol)
- Cadw dau safle'r ysgolion ar agor a chymysgu dosbarthiadau/grwpiau blwyddyn ar adegau penodol/cyfnodau allweddol
- Symud i un safle ond cael adeiladau ar wahân i'r merched a'r bechgyn.
- Cau'r ddwy ysgol ac adeiladu un newydd.

Tra bod y Cyngor yn cydnabod yr ymatebion, ac wedi adolygu pob opsiwn yn ei dro, maen nhw'n cael eu hystyried yn anhyfyw. Ni fyddai'r un o'r opsiynau amgen wedi'u nodi uchod yn cyflawni'r ffactorau llwyddiant hollbwysig sy'n llywio'r broses hon. Felly, y cynnig presennol yw'r opsiwn gorau o hyd i'w ystyried gan y Cabinet.

## CAMAU NESAF

**Argymhelliad**
Wrth adolygu'r cynnig i ystyried unrhyw wybodaeth bellach sydd wedi dod ymlaen trwy'r ymgynghori ac wrth ystyried yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg, y gymuned a threfniadau teithio, argymhelliad yr adroddiad hwn yw bod y cynnig yn cael ei symud ymlaen fel yr amlinellir yn y Ddogfen Ymgynghori:

- **Mae'r cynnig yn ceisio cau Ysgol Lewis i Ferched a gwneud newid rheoledig i Ysgol Lewis Pengam i newid o un rhyw i gyd-addysg o fis Medi 2025.**

**Byddai safle Ysgol Lewis i Ferched yn cael ei gadw fel darpariaeth i Ysgol Lewis Pengam i reoli'r cyfnod pontio dros nifer o flynyddoedd. (ac felly'n lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau a galluogi integreiddio staff a disgyblion dros gyfnod priodol o amser).**

**Gwneud Penderfyniad**

Er mwyn cyflawni ein diwygiadau ar draws y system gyfan, bydd angen ymrwymiad mentrus arnom i gydweithredu effeithiol ynghyd ag integreiddio gwasanaethau lle bo hynny'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y proffesiwn addysgu a'r gweithlu addysg ehangach, ein partneriaid allweddol mewn awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, gwasanaethau rhanbarthol, Estyn ac eraill. Bydd gweithredu unrhyw gynnig yn llwyddiannus yn gofyn am ymgysylltiad effeithiol a gonest rhwng pob agwedd ar y system addysg a'n cymunedau lleol ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu'r amodau er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.

Bydd gofyn i Aelodau'r Cabinet:

a) Ystyried yr wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Ymgynghori.
b) Cymeradwyo'r argymhelliad, trwy bleidlais, i symud ymlaen i Hysbysiad Statudol mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Lewis i Ferched a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol Lewis Pengam i'w newid o ysgol un rhyw i ysgol gydaddysg, o fis Medi 2025.

**Adrodd, Hysbysu a Chyhoeddi Gwybodaeth**

Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi sy'n darparu cyfnod rhybudd o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgol yn cael cyfle i wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig a'u hanfon at y Cyngor o fewn y cyfnod o 28 diwrnod.

Yna bydd y Cabinet yn ystyried canlyniad yr Hysbysiad Statudol mewn cyfarfod yn y

dyfodol ac yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig ar ôl rhoi ystyriaeth ddyledus i'r holl wybodaeth a ddarparwyd.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiad yn darparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cabinet i'r gwrthwynebiadau hynny o fewn 7 diwrnod neu'r diwrnod y penderfynwyd ar y cynnig. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor a bydd copïau papur ar gael ar gais.

Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, bydd Achos Busnes llawn yn cael ei gyflwyno i Weinidog Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol a bydd y gwaith yn cychwyn.

## [redacted] GWYBODAETH GEFNOGOL

**Atodiad 1 :**
[Llythr Hysbysu](#)

[Dogfen Ymgynghori](#)

[Asesiad Effaith Integredig](#)

**Atodiad 2:**

**Ymateb Llawn Estyn**

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gau Ysgol Lewis i Ferched a gwneud addasiad rheoledig i Ysgol Lewis Pengam i newid o fod yn ysgol un rhyw i fod yn ysgol gydaddysgol, o fis Medi 2025.**

**Cyflwyniad**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn dim ond yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

**Crynodeb / Casgliad**

At ei gilydd, mae'r cynigion yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Mae hyn oherwydd bod y trefniadau presennol yn aneffeithlon, gyda mwy na 900 o leoedd dros ben rhwng y ddwy ysgol, a gallai cyfuno'r ddwy ysgol alluogi'r awdurdod lleol i dargedu adnoddau'n fwy effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys digon o fanylion am nifer o agweddau pwysig ar y cynnig.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi rhesymeg glir a manwl ar gyfer y cynnig i gau Ysgol Lewis i Ferched a gwneud Ysgol Lewis Pengam yn ysgol gydaddysgol er mwyn gallu gwneud lle i'r disgyblion o'r

ddwy ysgol yno. Mae’r amserlen ar gyfer y newidiadau yn glir ac yn caniatáu cyfnod interim o ddwy flynedd, o fis Medi 2025-Medi 2027, i roi trefniadau pontio ar waith.

Mae’r awdurdod lleol yn amlinellu prif fanteision ac anfanteision y cynnig. Fodd bynnag, nid yw’n ystyried nac yn mynd i’r afael â’r effeithiau negyddol posibl ar ddisgyblion sy’n dechrau yn Ysgol Lewis i Ferched ym mis Medi 2025 a mis Medi 2026, y bydd rhaid iddynt newid ysgolion ddwywaith mewn cyfnod byr.

Caiff tair prif risg eu nodi’n rhai isel neu’n ganolig a chaiff lliniariadau perthnasol eu datgan. Fodd bynnag, nid oes unrhyw drafodaeth yn y ddogfen ymgynghori am fanteision neu anfanteision posibl addysg un rhyw, sy’n debygol o beri pryder i rai rhieni. Nid yw’r ddogfen yn cyflwyno unrhyw ddewisiadau amgen addas i’r cynnig, fel gostwng lleoedd dros ben trwy leihau maint a chapasiti’r ddwy ysgol.

Mae’r awdurdod lleol yn ystyried yr effaith ar drefniadau teithio dysgwyr. Bydd disgyblion y mae’n rhaid iddynt deithio ymhellach nag y maent yn awr, neu byddai’n rhaid iddynt wneud hynny yn y dyfodol os ydynt yn byw’n agosach at Ysgol Lewis i Ferched nag Ysgol Lewis Pengam. Fodd bynnag, mae’n debygol y bydd rhaid i nifer debyg deithio pellter byrrach. Yn ychwanegol, mae Ysgol Lewis Pengam mewn cyflwr gwell nag Ysgol Lewis i Ferched, ac mae’n fwy hygyrch ar gyfer disgyblion ag anawsterau symudedd.

Y rheswm pwysicaf am y cynnig yw’r gostyngiad cyffredinol mewn lleoedd dros ben. Ar hyn o bryd, bydd mwy na 900 o leoedd dros ben ar draws y ddwy ysgol, a bydd y cynnig yn cael gwared ar y rhain yn gyfan gwbl, a allai arwain at effeithlonrwydd gwell wrth ddefnyddio adnoddau’r awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae capasiti ar gyfer 1,140 o ddisgyblion yn unig yn Ysgol Lewis Pengam ar hyn o bryd, ac yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2027 a 2029, bydd y capasiti hwn yn fwy, hyd yn oed heb gynnwys y chweched dosbarth. O gynnwys y chweched dosbarth, mae’r niferoedd yn fwy na’r capasiti tan 2031. Mae’r ddogfen ymgynghori yn datgan y gellir darparu ar gyfer cyfanswm nifer y disgyblion yn Ysgol Lewis Pengam os caiff yr ystafelloedd dosbarth eu hailffurfweddu. Fodd bynnag, nid yw’r ddogfen yn esbonio beth mae hynny’n ei olygu yn ymarferol, pa darfu fydd hyn yn ei achosi i ddisgyblion, y costau, neu pa drefniadau fydd yn cael eu gwneud ar gyfer cyfleusterau eraill, fel toiledau a gofod ffreutur.

Mae’r awdurdod lleol yn ystyried na fydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sgil cyfuno’r ddwy ysgol. Mae’n ystyried Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau’r Gymraeg yn ei asesiad effaith integredig.

Mae’r ddogfen ymgynghori yn rhoi ychydig iawn o wybodaeth am oblygiadau ariannol y cynnig. Gallai fod arbedion effeithlonrwydd, er nad yw’r rhain wedi cael eu hamcangyfrif. Yn y cyfnod interim tra bydd y cyfnod pontio’n digwydd, efallai bydd costau cynyddol, ond eto, nid yw’r rhain wedi cael eu hamcangyfrif.

Nid yw’r awdurdod lleol wedi cynnwys asesiad o’r effaith ar y gymuned fel rhan o’r cynnig. Nid yw’n glir beth fydd yn digwydd i’r ganolfan hamdden yn Ysgol Lewis i Ferched a ddefnyddir gan y gymuned y tu allan i oriau ysgol. Mae’r ddogfen yn datgan na ragwelir y bydd unrhyw effaith, er na fydd prif ddefnyddiwr y cyfleusterau yno mwyach o fis Medi 2027.

### Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae’r awdurdod lleol wedi ystyried effaith debygol y cynnig ar ansawdd a safonau mewn addysg. Er enghraifft, mae’n ymwybodol y gallai fod ychydig o darfu ar ddysgu a lles wrth ddod â’r ddwy ysgol at ei gilydd, a bydd yn cymryd camau i liniaru’r risg hon. Mae’r awdurdod lleol wedi ystyried adroddiadau arolygiadau diweddar Estyn hefyd ac yn nodi bod Ysgol Lewis Pengam wedi cael ei thynnu o’r categori monitro gan Estyn ym mis Tachwedd 2019.

Mae’n debygol fod manteision i’r cwricwlwm mewn cael un ysgol fwy. Gallai hyn roi cyfle ar gyfer darparu ystod ehangach o gyrsiau, yn enwedig ar gyfer disgyblion 14- 19 oed. Mae’r ddogfen

ymgynghori yn nodi mai'r broses yw cau Ysgol Lewis i Ferched, a chymryd camau i gyflogi staff yno yn Ysgol Lewis Pengam, lle bo modd, a cheisio adleoli staff yn rhywle arall yn y sir os na. Bydd hyn yn gythryblus i'r staff yn Ysgol Lewis i Ferched, ac mae risg y gallai rhai o'r athrawon a'r aelodau staff eraill gael eu colli i'r ysgol a'r sir o ganlyniad.

Mae'r cynnig yn ystyried anghenion disgyblion bregus ac yn ceisio lleihau'r tarfu cyffredinol i ddysgwyr. Mae'n hynod fuddiol fod blwyddyn academaidd lawn yn dilyn y broses ymgynghori cyn dechrau'r cyfnod interim, oherwydd dylai hyn ddarparu'r amser sydd ei angen i sicrhau bod y newidiadau'n digwydd mor esmwyth ag y bo modd

***Adroddiad wedi'i baratoi gan:***

Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu
Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ty Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

01443 864817
Ysgolionyr21ainganrif@caerffili.gov.uk